

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWDYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB / O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT. AR DYDD MERCHER, 14 IONAWR 2026 16:00

Presennol

Y Cyngorydd H Griffiths – Cadeirydd

H T Bennett
JPD Blundell
S Easterbrook
W R Goode
P W Jenkins
J Llewellyn-Hopkins
A Ulberini-Williams
E D Winstanley

A R Berrow
O Clatworthy
M J Evans
GC Haines
M R John
RL Penhale-Thomas
HM Williams
T Wood

F D Bletsoe
HJ David
N Farr
M L Hughes
M Jones
R J Smith
I Williams

S J Bletsoe
P Davies
J Gebbie
D M Hughes
W J Kendall
JC Spanswick
R Williams

Presennol – O Bell

N Clarke
S J Griffiths
T Thomas
MJ Williams

RJ Collins
RM James
G Walter

C Davies
M Lewis
A Wathan

P Ford
J E Pratt
AJ Williams

Swyddogion:

Kelly Watson
Jake Morgan
Claire Marchant
Carys Lord
Adam Provoost
Janine Nightingale
William Lane

Prif Swyddog - Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol, AD a Pholisi Corfforaethol
Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid
Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir

Rachel Keepins
Mark Galvin
Michael Pitman
Oscar Roberts

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau

223. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr David Harrison, Ian Spiller, Eugene Caparros, Sean Aspey, Richard Granville a Jefferson Tildesley.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

224. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Datganwyd y buddiannau canlynol:- Datganodd y Cynghorydd Paul Davies fuddiant rhagfarnus yn eitem 8 gan fod aelod o'r teulu yn derbyn y gostyngiad. Gadawodd y Cynghorydd Davies y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitem hon. Datganodd y Cynghorydd John Spanswick fuddiant personol yn eitem 8 gan fod aelod agos o'r teulu yn derbyn y gostyngiad. Datganodd y Cynghorydd Melanie Evans fuddiant personol yn eitem 9 fel Cynghorydd Tref Pencoed. Datganodd y Cynghorydd Melanie Evans fuddiant personol yn eitem 12 fel aelod ward dros Bencoed a Phen-prysg. Datganodd y Cynghorydd Timothy Wood fuddiant personol yn eitem 8 gan ei fod yn derbyn y gostyngiad o 25% ar gyfer meddiannaeth unigol. Datganodd y Cynghorydd Mark John fuddiant rhagfarnus yn eitem 8 gan fod perthynas agos yn derbyn y gostyngiad. Gadawodd y Cynghorydd John y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitem hon.
------------------------	--

	Datganodd y Cynghorydd Jane Gebbie fuddiant rhagfarnus yn eitem 8 gan ei bod yn derbyn didyniad Treth y Cyngor. Gadawodd y Cynghorydd Gebbie y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitem hon. Datganodd y Cynghorydd Gary Haines fuddiant personol yn eitem 8 gan ei fod yn derbyn y gostyngiad o 25% ar gyfer meddiannaeth sengl. Datganodd y Cynghorydd Malcolm James fuddiant personol yn eitem 8 gan fod aelod o'r teulu yn derbyn y gostyngiad. Datganodd y Cynghorydd Neelo Farr fuddiant personol yn eitem 8. Datganodd y Cynghorydd Richard Williams fuddiant personol yn eitem 9 fel aelod o Gyngor Tref Pencoed. Datganodd y Cynghorydd Richard Williams fuddiant personol yn eitem 10 fel aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu. Datganodd y Cynghorydd Amanda Williams fuddiant personol yn eitem 4 fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety. Datganodd y Cynghorydd Elaine Winstanley fuddiant personol yn eitem 4 gan fod ei chyflogwr, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, yn gweithio gyda Halo Leisure.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

225. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>RESOLVED:</u>	Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 19 Tachwedd 2025 fel rhai gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026	

226. Cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Halo

Y penderfyniad a wnaed	Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Arweinydd adroddiad a gyflwynodd Scott Rolfe, Prif Weithredwr Halo Leisure, a roddodd gyflwyniad yn amlinellu rôl Halo yn y gymuned, y gwasanaethau a gynigir gan ei gyfleusterau hamdden, a chynnydd ar fentrau i gefnogi Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y cyflwyniad yn manylu ar raglenni lles Halo Leisure a gynigir i gymunedau lleol ar draws ei gyfleusterau, gan gynnwys ei gynllun Mynediad i Hamdden, ei raglen Teimlo'n Dda am Oes sy'n cynnig gweithgareddau sy'n gyfeillgar i ddementia i gefnogi oedolion hŷn sy'n profi dementia, unigrwydd ac iselder, a gwersi nofio sy'n gyfeillgar i awtistiaeth i bobl ifanc sy'n byw ag ASD neu anghenion dwys. Yn dilyn cyflwyniad Mr Rolfe, agorodd y Maer y llawr am gwestiynau, a chafwyd cwestiynau ar y themâu canlynol: • Ymrwymïadau a chynlluniau i gefnogi asedau a gedwir gan Halo fel ceidwad yn y dyfodol. • Gostyngiadau posibl yn y nifer sy'n manteisio oherwydd costau cludiant neu ffactorau cysylltiedig eraill. • Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. • Amcangyfrifon ar gyfer gwaith adferol i ganolfannau hamdden yn y Fwrdeistref Sirol. • Esboniad ynghylch ffyrdd y gall Halo Leisure annog mynediad at gyfleusterau ymhellach ar gyfer athletwyr lefel uchel. • Unrhyw gynlluniau i ehangu darpariaeth neu gyfleusterau i gwmpasu ystod ehangach o weithgareddau? • Cynlluniau posibl i symud i fodel asiantaeth. • A all Cynghorau Tref a Chymuned ychwanegol gymryd rhan a chefnogi cynlluniau a gynigir gan Halo? • Posibiliadau o gydweithio â Gwasanaeth Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr. • Sut yr ymdrinnir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol o amgylch canolfannau Halo? Cadarnhaodd Mr Rolfe y byddai'n mynd ar drywydd ac yn ymateb i'r cwestiynau a'r ymholiadau a godwyd uchod (yn ogystal ag eraill) na allai ymateb iddynt yn ddigonol, y tu allan i'r cyfarfod. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi nodi cyflwyniad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

227. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Aelodau Cabinet canlynol a'r Prif Weithredwr (doedd dim angen gwneud penderfyniadau/dim penderfyniadau wedi'u gwneud): • Maer; • Prif Weithredwr
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

228. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (doedd dim angen gwneud penderfyniadau/dim penderfyniadau wedi'u gwneud).
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

229. Cartref Preswyl Plant

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i gynnwys cyllideb gyfalaf o £1,620,450 yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y bwriad i gaffael ac adnewyddu cartref preswyl i'w gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel cartref gofal preswyl i blant. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ar y themâu canlynol: • A ellid defnyddio tir addas arall at yr un diben â'r caffaeliad eiddo arfaethedig? • A all Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hawlio rhyddhad ar yr eiddo hwn yn debyg i landlordiaid cymdeithasol eraill? • A all Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr liniaru unrhyw rwystrau posibl i gael y cyllid?
------------------------	---

	• Y rhesymeg dros roi'r adroddiad hwn gerbron y Cyngor heb fynd trwy'r broses Graffu yn gyntaf. • Pris yr eiddo arfaethedig i'w gaffael. • Dewisiadau posibl eraill i wneud gwell defnydd o'r arian a ddyrannwyd. • Y posibilrwydd o greu set o reolau a chanllawiau ynghylch buddsoddiadau tebyg yn y dyfodol fel y gellir sefydlu cynsail i gael mwy o fanylion am unrhyw gynlluniau fel hyn a gynigir yn y dyfodol. • A all prynwyr eraill geisio prynu'r eiddo a glustnodwyd ar gyfer y gwariant? • Y rhesymeg dros bris y gwaith adnewyddu a roddwyd. • A ellir clustnodi eiddo o fewn datblygiadau newydd ar gyfer cynigion tebyg yn y dyfodol? Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid, ac Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf o £1,620,450 i'w chynnwys yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor i gaffael ac adnewyddu cartref preswyl i blant, i'w ariannu i ddechrau o adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar y dybiaeth y bydd rhywfaint neu'r cyfan o'r costau'n cael eu hadennill drwy Gronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

230. Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2026-27

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, oedd rhoi gwybodaeth i'r Cyngor ynghylch y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (CTR) arfaethedig ar gyfer 2026–27, a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadu'r cynllun hwn erbyn 31 Ionawr 2026.
------------------------	--

	<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad ac wedi mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2026–27 fel y nodir ym mharagraffau 3.15 i 3.20 yn yr adroddiad hwn.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

231. Canllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai, oedd hysbysu'r Cyngor o ganlyniad yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar y fersiwn ddrafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored yn dilyn cymeradwyaeth (gyda gwelliannau) gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2025. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ar y themâu canlynol: • Ehangu Ardaloedd Gemau Amldeffnydd, o bosibl, i rannau o'r Fwrdeistref Sirol. • Cyfleusterau hamdden a gytunwyd i gael eu darparu mewn safleoedd tai preswyl a adeiladwyd yn flaenorol neu safleoedd tai preswyl llai. • Ffyrdd o roi sicrwydd i drigolion cyfagos ynghylch safleoedd tai sydd ar ddod. Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai, y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, yr Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor: - Wedi nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo ymatebion y swyddogion i'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y fersiwn ddrafft o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored, ynghyd â'r gwelliannau canlyniadol a nodir yn Atodiad 2 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad. - Wedi cymeradwyo ffurf derfynol y CCA ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored (Atodiad 1) a chytuno i fabwysiadu a rhoi'r CCA ar waith ar unwaith fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau swyddogol ynghylch datblygiadau ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ynghyd â'r CDLI Newydd a fabwysiadwyd, yn amodol ar ddarpariaethau penderfyniadau 'c', 'd' ac
------------------------	---

	'e'. c. Wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau cyflwyniadol, cywiriadau teipograffig neu ffeithiol yn ôl yr angen cyn cyhoeddi'r CCA mabwysiedig ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored. d. Wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i ddiweddarau, yn ôl yr angen, y dolenni gwe i ddogfennau canllaw allanol ar arferion gorau a restrir o dan y pennawd 'Design Guidance by Outdoor Recreation Facility Typology' yn Adran 7.0 y CCA ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gywir. e. Wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i ddiweddarau'r costau a nodir yn Nhabl 1 (tudalen 11), Atodiad A ac Atodiad B o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod costau o'r fath yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r costau cyfredol.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

232. Adolygiad o'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, oedd gofyn i'r Cyngor gymeradwyo cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig o Ddatganiad y Polisi Trwyddedu a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad. Gofynnodd yr aelodau gwestiwn ynghylch sut i liniaru effaith y newidiadau arfaethedig i ofynion trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth a/neu ddawnsio mewn sefydliadau Hwyr y Nos, yn benodol i leihau unrhyw swm yn effeithio ar ardaloedd preswyl. Cafodd y cwestiwn hwn ei drafod gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad a'r Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad y Polisi Trwyddedu a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

--	--

233. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Swyddog Monitro, oedd hysbysu'r Cyngor am yr Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers ei gyfarfod diwethaf. Yr unig adroddiad a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor oedd Datganiad y Cyfrifon a Archwiliwyd 2024–25, a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor wedi cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

234. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

Y penderfyniad a wnaed	Y Cynghorydd Alex Ulberini-Williams at yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol). Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Ulberini-Williams a atebwyd yn y cyfarfod. Y Cynghorydd Tim Thomas at yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd (ymateb a ddosbarthwyd i'r Aelodau yn flaenorol). Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas a atebwyd yn y cyfarfod.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

235. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	14 Ionawr 2026

CYNGOR - DYDD MERCHER, 14 IONAWR 2026

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 18:58